AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 249 Awst - Medi 2024

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Mae'n dymor teithio! Mae pobl yn teithio drwy'r amser, rwy'n gwybod, ond mae mwy na'r cyffredin o deithio yn digwydd ym misoedd Awst a Medi. Rwy'n meddwl yn arbennig am siwrneiau y rhai sy'n mynd ar ddyddiau allan neu ar wyliau, yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol, yn symud tŷ a mynd i ffwrdd ar gyfer addysg neu waith. Bydd cryn nifer o weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd a'u teuluoedd yn teithio ym mis Awst, gan symud i fans newydd a dechrau gweithio mewn penodiad newydd. Bydd eraill yn symud i gartref newydd am eu bod yn 'eistedd i lawr,' sef ymddeol, yn iaith yr enwad, wrth i flwyddyn gyfundebol newydd ddechrau ar 1 Medi. Ydi, wir, mae 2024-25 ar fin dechrau, a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Pan fydd un o weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd yn gadael penodiad, er enghraifft mewn cylchdaith neu dalaith, mae'n arferol cynnal gwasanaeth ffarwel iddynt, yn union fel y bydd gwasanaeth croeso yn digwydd ar gyfer gweinidog newydd. Ym mhob un o'r cylchdeithiau lle bûm yn gwasanaethu, heblaw un, cynhaliwyd gwasanaeth ffarwel ac roedd hyn yn braf iawn. Dydw i dal ddim yn gwybod pam nad oedd ffarwel ffurfiol yn y gylchdaith arall honno, ond mae amser wedi symud ymlaen, ac rwy'n cofio'n ddiolchgar ac yn annwyl am fy ngwasanaethau ffarwel eraill. Yr haf yma yn arbennig, mae'r gwasanaeth a gynhaliwyd pan adewais fy mhenodiad cyntaf yn ôl ym 1999 yn dod i gof. Roeddwn i'n gadael er mwyn gwasanaethu yn fy mhenodiad cyntaf yng Nghymru, yn hen Gylchdaith y Glannau. Fel un o fy anrhegion gadael, cyflwynodd un o'r capeli gopi o'r Beibl Cymraeg Newydd imi yn ystod y gwasanaeth – un mawr, du, addas i'w ddefnyddio mewn pulpud! Tu mewn, ysgrifennwyd y geiriau, "Y Gair o Dduw yn y iaith y Nefoedd." Chwarae teg! Am garedigrwydd gan bobl Canoldir Lloegr! Hefyd, fe wnaethon ni ganu cyfieithiad Saesneg emyn enwog William Williams Pantycelyn, ar y dôn 'Cwm Rhondda' – "Guide me, O thou great Jehovah" (*Singing the Faith* 465). Mae'n rhaid imi ddweud na chlywais yr emyn yn cael ei ganu gyda chymaint o angerdd na chynt na chwedyn. Roedd y gylchdaith honno yn wir am i mi wybod fy mod yn cael fy anfon gyda'u bendith ar fy nhaith, i fy mhenodiad newydd yng Nghymru!

Rwy'n meddwl am y gwasanaeth hwnnw am fod Cwm Rhondda mor arwyddocaol yr haf hwn, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn nhref Pontypridd, "Porth i Gymoedd Rhondda." Mae gan y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach etifeddiaeth ddiwydiannol falch yn hanes Cymru, ac ar yr un pryd maent wedi ennill eu lle yn hanes diwylliannol Cymru hefyd. Ysgrifennwyd yr anthem genedlaethol ym Mhontypridd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan Evan James a James James, tad a mab a oedd yn byw a gweithio yn y dref. Ym 1930, dadorchuddiwyd cerflun i gofio am y ddau ym Mharc Ynysangharad, lle bydd maes yr Eisteddfod eleni. Ond y dôn y bydda i'n ei hymian wrth gyrraedd y dref fydd 'Cwm Rhondda'! Dof yno i gefnogi Cytûn yn y babell ar y maes ac yn Eglwys St Catherine, ac i gynrychioli ein Synod ni yn y digwyddiadau ecwmenaidd. Yn Gymraeg, mae emyn Ann Griffiths, "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd" (*Caneuon Ffydd* 319) yn cael ei ganu i 'Cwm Rhondda', wrth gwrs, ac mae geiriau William Williams, "Arglwydd, arwain drwy'r anialwch," (*Caneuon Ffydd* 702) yn cael eu canu i dôn 'Capel y Ddôl'. Er hynny, fel Saesnes, dysgais i 'Cwm Rhondda' fel tôn i "Guide me, O thou great Jehovah" yn gyntaf oll. Rwy'n credu fod poblogrwydd yr emyn i'w briodoli nid yn unig i'r dôn (sy'n "banger," fel maen nhw'n dweud!), ond hefyd i'r geiriau, a ysbrydolwyd gan hanes taith pobl Israel o'r Aifft i ryddid o gaethwasiaeth yn llyfr Exodus. Pwy ohonom nad yw wedi teimlo ein bod mewn anialwch, yn wan ac angen cymorth ac arweiniad Duw, ar ryw adeg yn ein bywydau. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae gan yr emyn rywbeth i'w ddweud wrth bawb ac mae'n ein galluogi i fynegi ein hunain wrth Dduw, boed mewn angladd, mewn rhyw benbleth, yn gwylio gêm rygbi neu yn cael ein hanfon ar ein ffordd i wlad a phenodiad newydd!

Felly diolch i Dduw am Gwm Rhodda – y lle a'r dôn. Boed i Dduw fendithio'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni, a phawb a ddaw yno, a boed i Dduw ein bendithio ni i gyd yn ein holl deithiau, trwy'r anialwch neu mewn porfeydd gwelltog a gerllaw dyfroedd tawel.


Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

**Cofiwch alw i'n gweld yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd**


**Eisteddfod Genedlaethol – Pontypridd, Awst 3-10 2024**

**Eleni bydd gennym bresenoldeb mewn dau leoliad – stondin ar y maes ac Eglwys St Catherine's yn y dref.**

**Bydd gennym stondin fechan ar y maes (Uned 316-7) ond bydd ein gwasanaethau, arddangosfeydd, gwaith plant, sgyrsiau a lluniaeth yn cael eu cynnal yn Eglwys St Catherine's sydd ond 5 munud o'r maes.**

**Byddwn yn yr Eglwys bob dydd rhwng 11.30 - 5.30**
Croeso cynnes i bawb

Galwch i'n gweld yn Eglwys St Catherine's





# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 249**
**AWST – MEDI 2024**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"
(**NID** "i'r Gwyliedydd" os gwelwch yn dda)

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
6 MEDI 2024
Llun y clawr gan Karen Owen


Eiddilaf ryfelwr wyf fi
i ymladd â nerthoedd y ddraig,
ond caf fuddugoliaeth a bri
a Duw hollalluog yn graig.

AP HEFIN


Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




# Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Diolch o galon i Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd am eu haelioni tuag atom.**

| | |
|---|---|
| Dydd Gweddi'r Byd | £450-00 |
| Merle Davies, Abergwaun | £ 20-00 |
| Dr June Cooper, Llanfair Pwllgwyngyll | £ 25-00 |
| Capel yr Annibynwyr, Bethel, Arfon | £ 25-00 |
| Eira Owain, Caernarfon | £ 25-00 |
| Tom ac Eirlys Pritchard, Llanfair Pwllgwyngyll | £ 10-00 |
| Mrs N. Phenna, Llandudno | £ 50-00 |
| Angharad, Geraint, Bronwen a Dewi er cof am y Parchg O.E. Evans a Mrs Margaret Evans | £ 20-00 |
| Dienw | £ 50-00 |
| **Cyfanswm** | **£675-00** |

# Ordeinio

Llongyfarchiadau cynnes i'r Parchedig Evelyn Bhajan, a ordeiniwyd yng Nghadeirlan Bradford ar 30 Mehefin, yn ystod y Gynhadledd Fethodistaidd yn Leeds. Dymunwn yn dda iawn i Evelyn yn ei gweinidogaeth a hefyd i'r Parchedig Bethany Willers (gynt o'r Eglwys Fethodistaidd Unedig yn yr UDA) a dderbyniwyd i'r Cyfundeb yn Llawn ar yr un diwrnod. Boed bendith Duw arnynt. Dyma lun y ddwy gyda chynrychiolwyr y Synod yn y Gynhadledd a chefnogwyr eraill, ar ddiwrnod llawen iawn.



# Gwleidyddiaeth a gwrando

*gan Dr Huw Tegid*

Bu newid mawr yng ngwleidyddiaeth Prydain ers cyhoeddi rhifyn blaenorol y Gwyliedydd, ac erbyn hyn mae gan Brydain Brif Weinidog newydd, llywodraeth newydd, a nifer o Aelodau Seneddol newydd hefyd. "Y mae amser i bopeth" fel y dywedir yn Llyfr y Pregethwr, ac roedd rhywun yn synhwyro bod teimlad cyffredinol ledled Prydain bod pobl yn barod am newid. Mynegwyd hynny gyda phleidlais gref yn erbyn y Blaid Geidwadol a oedd yn llywodraethu yn San Steffan, gyda'r 'ysbail', fel petai, yn cael ei rannu rhwng pleidiau gwahanol iawn. Etholwyd aelodau o Blaid Cymru a'r Gwyrddion ar ochr chwith y sbectrwm gwleidyddol, a nifer tebyg o Reform ar yr ochr arall. Y Blaid Lafur, fymryn i'r chwith o'r canol, aeth â mwyafrif y pleidleisiau a'r seddau.

Fel un a fu'n ymgyrchu dros ymgeisydd penodol a phlaid benodol, roedd yn bwysig i mi adael gwleidyddiaeth adref cyn mynd i bregethu ar y Sul. Peth peryglus, meddan nhw, ydi cymysgu gwleidyddiaeth a chrefydd. Da o beth, efallai, oedd cael oedfaon y tu allan i fy etholaeth ar y penwythnos cyn yr etholiad rhag i bobl feddwl fy mod i'n defnyddio'r fraint o rannu'r Gair at ddibenion gwleidyddol. Roedd fy ngweddïau i mewn gwasanaethau y bûm i'n eu harwain ym mis Mai a mis Mehefin dros bob ymgeisydd yn yr etholiadau, a thros eu diogelwch, yn gwbl ddiffuant er hynny. Hyd yn oed os ydw i'n anghydweld â'u gwleidyddiaeth, rydw i'n edmygu'n fawr bob un sy'n fodlon cynnig eu henwau i gynrychioli pobl eu hetholaeth. Yn fy marn i, rhaid ymfalchïo bod digon o ddewis wedi bod ym mhob etholaeth, yn enwedig wrth feddwl mor unbenaethol ydi trefniadau llywodraethu rhai gwledydd o gwmpas y byd.

Wrth ganfasio o ddrws i ddrws, roedd y sgyrsiau'n ddadlennol a difyr, a rhaid cyfaddef i mi syrthio i'r fagl sawl tro o guro ar ambell ddrws a meddwl bod gen i syniad go lew o sut buasai'r sgwrs yn mynd. 'O, Toriaid ydi'r rhain, yn siŵr', neu 'Plaid Cymru fydd y rhain efo enw Cymraeg fel'na ar y tŷ', neu 'cefnogwr Llafur fydd hwn, yn siŵr i chi, mewn ardal ddiwydiannol fel hon'. Dysgais yn fuan iawn bod gofyn cael meddwl cwbl agored ynghylch y rhai oedd yn fodlon agor y drws am sgwrs. Mae'n dda gen i ddweud, hefyd, bod pob un y cefais i sgwrs â nhw yn gwrtais, ac roeddwn i'n synhwyro fod pawb wedi gwerthfawrogi'r cyfle i ddweud eu dweud, a chael gwrandawiad.

Yn hanes y daith i Emaus yn yr Efengyl yn ôl Sant Luc, nid yw Iesu yn datgelu i Cleopas a'i gydymaith pwy ydi o wrth iddo ymuno â nhw ar y daith o Jerwsalem. I mi, mae hynny'n dangos parch mawr Iesu tuag atyn nhw fel bodau unigryw a chymhleth eu hemosiynau. Er ei fod yn gwybod yn iawn pwy oedden nhw, ac yn gallu dyfalu sut roedden nhw'n teimlo ar ôl holl uchelfannau ac iselfannau yr Wythnos Fawr, roedd yn awyddus i wrando arnyn nhw'n dweud eu dweud yn eu geiriau eu hunain. Os mai peth peryglus ydi cymysgu crefydd a gwleidyddiaeth, un peth y teimlais i oedd yr un mor berthnasol i mi fel Cristion ag yr oedd i mi fel ymgyrchydd gwleidyddol oedd bod gwrando'n bwysig, a gwrando o ddifri yn hynny o beth. Rhoddwyd dwy glust i ni, ac un geg, a pha un ai mewn cyd-destun crefyddol ynteu ym myd gwleidyddiaeth rydan ni'n troi – neu'r ddau, wrth gwrs – mae esiampl Crist o wrando'n astud ar y ddau oedd ar eu ffordd i Emaus, cyn rhannu ei safbwyntiau ef ei hun, yn rhywbeth gwerth ei gofio.




## DIWRNOD GWRANDO

Mae Grŵp Gwrando'r Synod yn eich gwahodd i Ddiwrnod Gwrando - diwrnod o dawelwch ar ddechrau'r flwyddyn gyfundebol i wrando'n fwriadol ar Dduw.

Ble? Yr Hen Dŷ Ysgol, Eglwys Sant Tysilio, Llandysilio SY22 6QZ (oddi ar ffordd osgoi A483 Four Crosses, ger Church Farm. Mae arhosfan bysiau T12 gerllaw)

Pryd? Dydd Iau 12 Medi 2024, 10.00yb ar gyfer 10.30yb-3.30yp

Sut? Gweddi, distawrwydd, teithiau cerdded lleol a lleoedd i fod, rhannu a myfyrio. Dewch â phecyn bwyd. Darperir diodydd.

Gwybodaeth bellach: daviesd@methodistchurch.org.uk neu jennifer.hurd@methodist.org.uk



# Dysgu Cymraeg

gan **Angharad Tomos**



**Erbyn** i chi ddarllen hwn, bydd yn fis Awst a byddwn yn **edrych ymlaen** at dymor **Diolchgarwch**. Bydd y **pren afalau** yn yr ardd yn llawn **addewid** ac wrth i Awst droi yn Fedi, bydd yr afalau yn **cochi** ac yn tyfu.

Rydw i **wrth fy modd** efo'r ffaith inni **lwyddo** i dyfu pren afalau. Dair blynedd yn ôl, **plennais** ddau lwyn **cyraints duon**, ac roedd y **cnwd** a gawsom eleni yn well na'r un. Mae yn **f'atgoffa** o ardd fy nhad adref, a blas siarp y cyraints duon. Efallai y flwyddyn nesaf y rhof gynnig ar **gwsberis**. (Dwi wedi methu tyfu riwbob).

Ond drwy fis Medi a hanner yr Hydref, byddaf yn **camu allan** drwy'r drws cefn, ac yn **estyn** am afal oddi ar y goeden. Mae'n weithred mor syml, ond yn llawn **arwyddocâd**. Mae Duw wedi addo **darparu** ar ein cyfer, a dim ond inni **ymddiried** ynddo, bydd yn rhoi ac yn **dal ati** i roi. Does dim angen poeni am yr hyn a wisgwn nac a fwytawn, mae'r Arglwydd yn darparu. Rydym yn **colli golwg** ar hyn yng nghanol **prysurdeb** gwallgof yr **archfarchnad**, ond mae'r pren afalau yn ffordd dda o'm **hatgoffa** o haelioni Duw.

**Ni ddylem gyfyngu** ein diolch i Ŵyl Diolchgarwch. Ein **dyletswydd** ni yw bod yn ddiolchgar yn ddyddiol.

**erbyn** – by the time
**edrych ymlaen** – looking forward
**Diolchgarwch** – Harvest Thanksgiving
**pren afalau** – apple tree
**addewid** – promise
**cochi** – to redden
**wrth fy modd** – delighted
**llwyddo** – succeed
**plennais** – I planted
**cyraints duon** – blackcurrants
**cnwd** – crop
**f'atgoffa** – reminds (me)
**gwsberis** – gooseberries
**camu allan** – step out
**estyn** – reach
**arwyddocâd** – significance
**darparu** – provide
**ymddiried** – trust
**dal ati** – keep on
**colli golwg** – lose sight
**prysurdeb** – busyness
**archfarchnad** – supermarket
**hatgoffa** – remind
**Ni ddylem gyfyngu** – we should not confine
**dyletswydd** – duty

### SYNOD CYMRU WALES - DUW I BAWB

## ANTURIAETHAU WRTH ESTYN ALLAN

**28 Medi 9.30yb-3.30yp**
Sketty Uniting Church, Heol Dillwyn, Sgeti, Abertawe, SA2 9AH.

**19 Hydref 9.30yb-3.30yp**
Eglwys St David's, Rhodfa Mostyn, Craig y Don, Llandudno, LL30 1YY.

Ydych chi'n awyddus i wneud gwahaniaeth yn eich cymuned leol? Dewch i glywed mwy am gynllun newydd Synod Cymru Wales, gyda chymorth aelodau o Dîm Efengylu a Thwf y Cyfundeb. Croeso i bawb ddod i'r sesiynau uchod i ddarganfod mwy.

Bydd siaradwyr gwadd yn rhannu eu profiadau a'u dealltwriaeth ynglŷn â sut i estyn allan yn effeithiol a chewch hefyd gymryd rhan mewn gweithdai i ddysgu sgiliau ymarferol a ffyrdd i ymgysylltu â'r gymuned. Bydd cyfle i gyfarfod eraill o'r un anian a chryfhau eich ffydd trwy wneud pethau gyda'ch gilydd a thrafod.

Mae'r diwrnod yn ddi-dâl a bydd cinio ar gael – archebwch eich lle rhag blaen!

Gwybodaeth bellach i ddilyn, neu os oes gennych gwestiynau e-bostiwch **lnwales@methodistchurch.org.uk**

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ardal Bathafarn

**GWASANAETHAU**
Bu Hedd ap Emlyn yn arwain oedfa ym mis Mai. Croesawyd pawb gan Rhodri a'r cyfeilydd oedd Rhian.
Braf oedd cael dod at ein gilydd fel eglwysi tref Rhuthun i wasanaeth dwyieithog Cymorth Cristnogol ym Methania o dan arweiniad y Parchedig Morris P. Morris. Elizabeth oedd yn cymryd rhan o Fathafarn. Yn sicr mewn undeb y mae nerth. Diolch i gyfeillion Bethania am eu croeso i ni.
Ym Mehefin cynhaliwyd oedfaon o dan arweiniad y Parchedig Marc Morgan ac Elwyn Ashford Jones ac fe arweiniodd Elizabeth oedfa yng Nglyndyfrdwy pan weinyddwyd y Cymun. Cafwyd gair o groeso gan Elved. Gwerthfawrogir teyrngarwch holl gyfeillion yr Ardal.

**PROFEDIGAETH**
Mae dwy o hen gapel Wesle Graigfechan wedi cael colledion – Vera Savage wedi colli ei phriod Austin, cyn-athro yn Ysgol Glan Clwyd, a Ceinwen hefyd wedi colli ei phriod sef Gwynfor Jones, cyn bennaeth Ysgol Dewi Sant, y Rhyl. Meddyliwn amdanoch i gyd fel teuluoedd yn eich hiraeth am anwyliaid.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

### Salem, Rhyd y Foel



**YNYS ENLLI**
Dydd Sul Mehefin 16fed fe drefnodd Esther bererindod i Ynys Enlli. Roedd y tywydd yn braf iawn ac fe gafwyd diwrnod arbennig ar yr ynys.

**LLWYDDIANT**
Mae aelodau'r Ysgol Sul wedi bod yn brysur yn ddiweddar. Daeth Matthew a Mali yn drydydd mewn cystadleuaeth jwdo a bu Mali Grug Owen yn cystadlu yn Eisteddfod Llangollen, mewn côr a ddaeth yn drydydd allan o wyth o gorau.

**GWASANAETH CYDENWADOL**
Dydd Sul Mehefin 30ain cynhaliwyd gwasanaeth "Canu Mawl Yn Gydenwadol" i'r plant ac oedolion ym Methel, Prestatyn o dan arweiniad hwyliog yr amryddawn Dilwyn Price, Hen Golwyn. Bu ieuenctid yr ysgol Sul yn cymryd rhan. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr a chafwyd lluniaeth i ddilyn yn y festri. Y cyfeilyddion oedd Geraint ac Angela Roberts.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE





### Ebeneser, Trefor, Môn

**CYD-ADDOLI**
Nos Sul Mehefin 16 roedd ein gwasanaeth o dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Daeth rhai o aelodau Capel Maelog, Pencarnisiog atom a braf oedd cael eu croesawu. Cawsom oedfa fendithiol gyda neges bwrpasol iawn. Gan nad oes gennym organydd yma ers i ni golli Mrs Gwyneth Thomas, cytunodd Mrs Margaret Roberts i gyfeilio i ni ac ychwanegodd hynny at naws y gwasanaeth. Yn ddiweddar rydym wedi derbyn cryno ddisgiau gyda nifer o emyn-donau arnynt gan ein gweinidog, y Parchedig Ddr Ian Morris. Maent yn gaffaeliad mawr i ni ond does dim byd cystal ag organydd go iawn. Tueddwn i gymryd eu gwaith yn ganiataol ar brydiau! Rydym yn ddiolchgar iawn i Margaret ac mae wedi addo dod atom yn y dyfodol pan fydd yn rhydd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Mae Mrs Margaret Owen yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion ati a gobeithio y caiff ddod adref yn fuan.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS



### Bethel, Rhiwbeina

**DYMUNIADAU GORAU**
Ar fore Sul ynghanol mis Mehefin braf iawn oedd gweld Gwilym Roberts a Rosina Davies yn y capel wedi absenoldeb o rai wythnosau oherwydd anhwylder. Dymunwn iechyd da i'r ddau ohonynt. Rydym yn ddiolchgar i Alun Guy am fod mor barod i ganu'r organ yn ystod absenoldeb Gwilym.

**CASGLU NWYDDAU**
Rydym yn casglu nwyddau bob wythnos ar gyfer y Banc Bwyd, yn ogystal â chynnal Bore Coffi ar Orffennaf 11eg.

**MEDI 1AF**
Er na chynhelir gwasanaethau yn y capel ym mis Awst, bydd yr oedfaon yn ailddechrau ar Fedi'r 1af pan fydd y gwasanaeth yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan.

**GWEITHGAREDDAU ERAILL**
Yn ogystal â'r gwasanaethau ar fore Sul mae Bethel yn gartref i dri grŵp arbennig. Unwaith y mis mae 'Hamdden' yn cwrdd ar fore dydd Mercher ac ar y drydedd nos Lun ym mhob mis mae Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn cwrdd. Mae'r ddwy gymdeithas yn trefnu sesiynau amrywiol gan gynnwys siaradwyr diddorol a cherddoriaeth. Yn ogystal mae'r adeilad tu cefn i'r capel yn gartref i Gylch Meithrin Rhiwbeina sydd wedi bodoli ers 1959 ac felly yn 65 oed eleni.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS



**PEN-BLWYDD HAPUS**
Cawsom gyfle i ganu 'Pen-blwydd Hapus' i Hefin Jones, oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed, ar fore Sul Mehefin 23ain. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom fwynhau paned a chacen yn ei gwmni. Byddwn yn dathlu eto cyn hir pan fydd Julie Jones yn cael pen-blwydd arbennig.

### Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Cawsom gwmni ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan a hefyd Royce Warner ac Elizabeth Jones yn ystod Mai a Mehefin. Lle na bu pregethwr cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi hynod o fendithiol dan ofal nifer o aelodau'r capel.
Dydd Sul Mai 12fed cynhaliwyd oedfa undebol Cymorth Cristnogol Dinbych yn y Capel Mawr. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr Capel Lôn Swan, Capel Mawr ac Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws gyda'r Dr Prydwen Owens yn cynrychioli capel Pendref.
Blaenor mis Mai oedd Elfed Evans gyda Sheila Thomas yn gofalu am fis Mehefin. Diolch unwaith eto i Marjorie Williams, Beti Roberts a Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

**CYMANFA YM MHRESTATYN**
Dydd Sul Mehefin 30ain aeth nifer o'r aelodau i'r gymanfa gydenwadol flynyddol ym Methel Prestatyn. Cafwyd cymanfa fendithiol a hwyliog yn canu o'r Detholiad dan arweiniad Dilwyn Price. Mwynhawyd paned wedi ei threfnu gan aelodau Bethel ar derfyn yr oedfa.

**ER COF ANNWYL**
Gyda thristwch y clywsom y newyddion am farwolaeth sydyn Mrs Eleanor Jones yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu Eleanor yn aelod yma ym Mhendref am nifer o flynyddoedd wedi i'r teulu symud i Ddinbych. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Eglwys Bylchau a chynhaliwyd gwasanaeth i gofio a diolch amdani yma ym Mhendref dan ofal y Parchedig Marc Morgan gyda'r Parchedig Graham Floyd yn cynorthwyo. Mae ein cofion a'n cydymdeimlad gyda'r efeilliaid Eirian ac Eirlys a'r teulu oll.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

### Carmel, Moelfre (Ardal Dyffryn Clwyd)

Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu atom i'n hoedfa ar ddydd Sul 23 Mehefin gyn-aelodau a oedd yn ymweld â'r ardal, ynghyd â nifer o ffrindiau eraill. Wedi'r oedfa, a oedd dan ofal y gweinidog, y Parchg Marc Morgan, cafwyd cyfle i sgwrsio a hel atgofion dros baned a chacen. Diolch i bawb a gynorthwyodd yn ystod ac wedi'r oedfa.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

### Eglwys Unedig Seilo, Llandudno

**DATHLIAD**
Ar nos Fercher Mehefin 12fed cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn Seilo, i ddathlu 75 mlwyddiant addysg Gymraeg yn Llandudno. Agorwyd y noson gyda gair o groeso gan Mr Gethin Môn Jones, prifathro Ysgol Morfa Rhianedd, ac arweiniwyd y noson gan Mrs Lisa Butler, cyn-ddisgybl, athrawes a bellach yn is-gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol hon. Cafwyd hanesion difyr am sefydlu Ysgol Morfa Rhianedd ac yn y gynulleidfa roedd cyn-athrawon a chyn-ddisgyblion a hefyd Mr Gwynfor Roberts a wasanaethodd fel prifathro'r ysgol am 35 mlynedd. Roedd yn rhan o grŵp a aeth ymlaen i ymgyrchu am ysgol uwchradd i ardal Conwy, sef Ysgol y Creuddyn erbyn heddiw. Cafwyd eitemau gan Fand Pres Llandudno, Côr Alaw, Mr Trystan Lewis, Ysgol Morfa Rhianedd, Ysgol y Creuddyn, Hogia'r Berfeddwlad a Tant. Noson anhygoel a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Pen-blwydd hapus iawn i'r ysgol.
**GOHEBYDD .** LLINOS GARSTANG



# Er cof annwyl am y Chwaer Eluned Williams

## 07.05.1935 – 03.05.2024



**GAIR GAN Y DIACON GWENLLIAN ROBERTS KNIGHTON**

Cyn ei chyfarfod hi am y tro cyntaf mewn cynhadledd gyd-enwadol ym Mangor tua 1988 neu 1989, roeddwn wedi darllen ambell gyfeiriad at 'Y Chwaer Eluned Williams' yng nghylchgronau'r Eglwys Fethodistaidd. Tybed pwy oedd y 'Chwaer' yma gan nad oedd hi yn aelod yn y '*Wesley Deaconess Order*', sef rhagflaenydd Urdd Diaconiaid yr Eglwys Fethodistaidd (yr urdd yr wyf i yn perthyn iddi hi)? O'r cyfarfod cyntaf ym Mangor, yr hyn sy'n aros yn fy nghof yn glir am Eluned yw ei chynhesrwydd a'i chonsýrn dros eraill.

Wrth gwrs, roedd gan Urdd y Chwiorydd oedd yn gofalu am gartrefi'r plant (*NCH sisterhood*) wreiddiau yn yr un cyfnod â'r diaconesau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac o dan ysgogiad yr un gweinidog. Pan oedd y gwaith o ofalu am blant bregus gyda chefnogaeth yr Eglwys Fethodistaidd wedi newid yn ôl gofynion yr amser, gydag enw newydd sef '*Action for Children*', a fawr neb ar ôl o'i hen chwaeroliaeth, daeth Eluned weithiau i gynulliad blynyddol *('Convocation')* Urdd y Diaconiaid, neu atom i ambell gyfarfod o'r diaconiaid sydd yn gwasanaethu yma yng Nghymru, ac roeddem yn hynod falch o'i chwmni a'i chymdeithas.

Fel ffrind dwi'n ei chofio hi mewn gwirionedd – i mi fel i lawer un arall. Roedd pob un o'r cyfarfodydd achlysurol, boed mewn synod, yn y Gynhadledd Fethodistaidd neu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn fodd i adnewyddu'r berthynas dros baned. Un waith fe wnaethom gyfarfod ar drên rhwng Amwythig a Machynlleth, y ddwy ohonom yn dychwelyd o lefydd gwahanol yn fuan cyn y Nadolig. Roeddem wedi bod yn eistedd un bob pen i'r trên yn ysgrifennu cardiau Nadolig, gan gynnwys rhai i'n gilydd, cyn sylweddoli bod y llall ar yr un daith!

Mae'n rhyfedd meddwl am yr hen fyd yma heb ein Chwaer Eluned. Diolch i Dduw amdani.

**Yn Rhagfyr 2016 cyhoeddodd y *Gwyliedydd* gyfweliad gyda'r Chwaer Eluned. Atgynhyrchir yma ran o'r hyn a ddywedodd hi.**

"Cefais fy magu yng Nghoedpoeth, yr hynaf o chwech o blant. Roedd y pentre yn llawer llai bryd hynny gyda chymdeithas glòs iawn. Roeddwn yn unig blentyn am dair blynedd felly roedd pawb arall o'r teulu yn honni fy mod wedi cael fy sbwylio! Ond, wrth reswm, daeth cyfrifoldeb drwy fod yr hynaf. Doedd gennym ni ddim llawer o arian ond cawsom fyrdd o hwyl, llawer o gariad ac anturiaethau di-ri wrth gerdded, chwarae, mynd am bicnic, hel llus ar y mynydd, gwrando ar storïau yn yr hwyr yng ngolau'r tân, gyda Dad yn arbennig yn creu storïau o'r lluniau a'r lliwiau a welai yn y tân glo.

"Roeddwn yn blentyn swil, sensitif iawn. Un peth sy'n sefyll allan o ddyddiau ysgol yw'r atgofion sydd gen i am rai o'r athrawon, yn arbennig ar yr adeg pan gollais fy nhad tra oeddwn yn Ysgol Ramadeg Grove Park, Wrecsam. O ran galwedigaeth, gwyddwn fy mod am weithio gyda phlant. Yr hyn roedd arna i wir eisiau ei wneud oedd gweithio mewn cartref i blant – heb fod yn agos at un erioed! – ac anfonais at wahanol elusennau fel Barnardo's a'r NCH. Cefais gyfweliad gan yr NCH yn eu cartref yn Frodsham a mynd yno i weithio am ddwy flynedd cyn mynd i'r coleg.

"Campws mawr oedd yn Frodsham gyda 18 o grwpiau 'teuluol' yn byw mewn fflatiau neu dai. Ar ôl y coleg, es i Edgworth, ger Bolton, sef ysgol a chartref preswyl i blant ag anghenion arbennig, yn enwedig anghenion emosiynol yn deillio o'u cefndir. Bûm yn hapus iawn yno am ddeng mlynedd. Yna cefais fy mhenodi yn bennaeth cartref yn Ninas Powys, oedd yn her fawr, a bûm yno am 25 mlynedd. Yn ystod y blynyddoedd hyn fe newidiodd y gwaith, hefyd. Roedd ar y plant a ddeuai atom fwy o angen am loches, diogelwch, dealltwriaeth a chariad. Nid gwaith ond ffordd o fyw oedd eu croesawu, er mwyn iddynt ddysgu a deall na fyddent yn cael eu troi allan, eu treisio neu eu hanwybyddu...

"Gallech ddweud fy mod wedi cael magwraeth ecwmenaidd! Annibynnwr oedd fy nhad, roedd Mam yn aelod gyda'r Hen Gorff, lle cawsom ni ein magu, ond roedd hi wedi gweithio mewn rheithordy a chael blas ar arferion eglwysig. Cawsom faciwîs o Lerpwl oedd yn Gatholigion ac fe symudais innau fy aelodaeth at y Wesleaid! Cefais y fraint o gael fy mhenodi ar y Pwyllgor Ecwmeniaeth Cyfundebol pan oeddwn yn Ninas Powys ac ymhen amser i Gyngor Eglwysi Prydain, fel cynrychiolydd o'r Eglwys Fethodistaidd. Pan grëwyd y cyrff newydd sef Cytûn ac Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, roeddwn yn rhan o'r grŵp sefydlu oedd yn creu'r strwythurau newydd. Wedyn bûm yn Llywydd *CTBI* am bum mlynedd. Roedd yn fraint fawr cael cyfle i gyd-deithio â phobl o bob enwad, gan gynnwys Pabyddion, yr Eglwys Uniongred ac enwadau eraill, er mwyn ceisio cyflawni ewyllys Duw - un Eglwys ydym, er gwaethaf ein rhaniadau. Y tristwch yw nad yw'r dymuniad hwn yn amlwg iawn yn ein gweithgareddau heddiw. Ydym, rydym yn ceisio cydweithredu, ond!, peidiwch â'n gwthio ni ormod.

"Rwyf wedi bod yn freintiedig mewn cynifer o ffyrdd...Roedd yn fraint cynrychioli Cymru fel Is-lywydd y Gynhadledd a theithio drwy'r Cyfundeb gyda'r Llywydd arbennig, y Parchedig Ddr Inderjit Bhogal."

# Y BEIBL GWAU!

gan **Gwenda Davies**

Braint arbennig i ni yn Shiloh Newydd, Tregarth, fu cael croesawu arddangosfa ddiddorol iawn ym mis Mehefin sef 'Y Beibl Gwau'. Roeddem wedi clywed hanes yr arddangosfa yn ymweld â Phontarddulais a mannau eraill ac aeth tair o'n haelodau i'w gweld y llynedd yn Wilmslow, Swydd Caer. A rhaid oedd ei chael yma yn Nhregarth!

Crëwyd 'Y Beibl Gwau' gan Eglwys St George, Hartlepool, Swydd Durham, gan gychwyn drwy wau golygfa 'Y Swper Olaf ', a mynd ati wedyn i wau 36 golygfa o'r Hen Destament a'r Newydd. Gwaith anhygoel o ran cymeriadau a golygfeydd a'r rheini yn lliwgar, defosiynol a llawn hiwmor.







Yn ystod y tair wythnos y bu'r arddangosfa yma, daeth bron i 500 o bobl i mewn i'w gweld, rhai wedi teithio o Bwllheli, Llansannan, Llandegla, Y Bala, Corwen, Dyffryn Ardudwy, Ynys Môn, Caernarfon, Llanrwst a mannau eraill. Roedd dau hyd yn oed wedi dod yn unswydd o Gaerfyrddin ar ôl clywed eitem am yr arddangosfa ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p0j2bqmk. Braf iawn hefyd oedd cael ymweliad gan Adran Iau Ysgol Tregarth – y plantos wedi mwynhau gweld y cymeriadau mewn storïau oedd yn adnabyddus iddynt.

Diolch yn fawr i Bwyllgor Cynlluniau a Grantiau Synod Cymru Wales am grant hael i helpu gyda'r costau, ac i'n hymwelwyr am eu rhoddion caredig hefyd. Roeddem yn falch o gael cyfle i gydweithio â'n chwaer-eglwys ym Mangor, St John's, gan drosglwyddo'r arddangosfa iddynt hwy ar ddiwedd ein cyfnod ni. Ar ôl hynny bydd yng Nghroesoswallt drwy fis Awst, gweler https://www.stgeorgesurc.co.uk/the-knitted-bible/ .





## Ebeneser, Dolgellau

**Y DIWEDDAR CHWAER ELUNED WILLIAMS**

Gyda thristwch yr adroddir am farwolaeth y Chwaer Eluned Williams a hithau'n 88 oed. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Pentrebychan, Wrecsam ar 23 Mai ac i ddilyn cynhaliwyd Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn Ebeneser Dolgellau, i ddathlu bywyd Eluned, dan ofal y Parchedig Ddr. Jennifer Hurd a'r Parchedig Will Morrey. Daeth tyrfa enfawr ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddi. Traddodwyd y deyrnged gan y Parchedig Will Morrey, ffrind da i Eluned, ac roedd y gwasanaeth wedi'i baratoi gan Eluned ei hun o dan y teitl 'Stori Eluned' – hanes diddorol am y cyfan roedd wedi'i wneud trwy gydol ei hoes. Yn ystod y gwasanaeth hefyd cafwyd cyfraniad arbennig gan y Parchedig Inderjit Bhogal, a fu'n Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd pan fu Eluned yn Is-lywydd, ym mlwyddyn y Mileniwm.

Bydd hiraeth a cholled enfawr i ni yn Ebeneser ar ôl y Chwaer Eluned. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei brawd, Dewi a'r holl gysylltiadau teuluol eraill yn eu colled. Hoffem rannu tri englyn i gofio am Eluned, wedi'u hysgrifennu gan Mr Tecwyn Owen o Ddolgellau. Darllenwyd y rhain yn y gwasanaeth gan Karen, nith Eluned.

**Cofio Eluned**

Eluned a'i haelioni – a rhagor
na'i phregeth roes inni;
o rinwedd braf rhieni
rhannu hael ei rhannu hi.

Yn ei heglwys mae gwagle – heb Luned
ein blaenor a'i 'Phethe'
wrth yr Allor y bore -
ein Chwaer driw Penucha'r Dre.

Ei hafiaith oedd ddihafal – un rasol
ei chroeso a'i gofal
onid yw ei gwenau'n dal
yn annwyl yma i'n cynnal.

**PROFEDIGAETH**

Ym mis Mehefin bu farw Richard, mab Marian a Peter Morgan, brawd Catherine a Ruth ac ewythr Nesta ac Efin, yn 36 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant atynt i gyd a'r holl gysylltiadau teuluol eraill yn eu colled lem. Cynhaliwyd angladd Richard yn Ebeneser ar 8 Gorffennaf.

**COFION**

Rydym yn parhau i feddwl am Mrs Mary Davies sydd yn Ysbyty Dolgellau ar hyn o bryd ac yn anfon ein cofion ati.

**GARDD Y CAPEL**

Mae gardd y capel yn edrych yn hyfryd a lliwgar eto eleni. Diolch i Hugh Humphreys am ei holl waith yn plannu'r blodau. Rydym fel aelodau, yn ogystal â'r cyhoedd, yn cael pleser mawr wrth gerdded heibio.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Tabernacl, Llanfyllin

**OEDFA IEUENCTID YR URDD**

Ar ddechrau wythnos Eisteddfod yr Urdd, cawsom gyfle i ymuno â chynulleidfa o bob rhan o Faldwyn yng nghapel Pendref. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Euron Hughes a chymerwyd rhan gan ieuenctid bro'r Eisteddfod, sef Ysgol Sul Llanfair Caereinion, Merched Gloria, Llanfyllin, Edwyn Lloyd, Llansanffraid, ac Elen Wyn Jones, Erin Tomlinson, Eos Jones, Soffia Jones, y pedair o Lanfyllin. Darlledwyd y rhaglen ar Radio Cymru.

**GWELLHAD BUAN**

Dymunwn wellhad buan i Huw Emyr, Bodyddon Isaf, a gafodd godwm cas ar ei feic yn ddiweddar. Brysia wella, Huw.

**GWEITHREDU DROS BLANT**

Cynhelir oedfa arbennig yn flynyddol wedi ei llunio gan yr elusen hon, ac felly y bu eto eleni. Cymerwyd rhan yn yr oedfa ar y Sul cyntaf o Orffennaf gan aelodau Soar, Pendref a'r Tabernacl. Gwnaed casgliad at yr elusen. Diolch i Mrs Decia Blacker a Mrs Mair Ellis am y trefniadau.

**DYMUNIADAU GORAU**

Roedd yn arw gennym glywed bod Mrs Hilda Evans, Bronygaer, wedi cael ei tharo'n wael yn annisgwyl ac yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Anfonwn ein dymuniadau gorau ati am wellhad. Ein dymuniadau gorau hefyd i Mrs Decia Blacker, nad yw wedi bod yn dda. Cofion hefyd at Mrs Eirlys Richards (priod ein gweinidog) sydd mewn cartref gofal yn Yr Ystog ar hyn o bryd ond yn gobeithio dod adre yn fuan.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Shiloh Newydd, Tregarth

**GWELLHAD BUAN**

Gwellhad buan i Helen Wyn, Bro Derfel, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd a chael llawdriniaeth yn ystod mis Gorffennaf. Mae Helen yn ffyddlon iawn yn yr oedfaon a phob amser yn barod i gymryd rhan. Gwyddom amdani fel cantores broffesiynol, wrth gwrs, ac enillydd ar fwy nag un achlysur ar y rhaglen deledu 'Opportunity Knocks'.

**Y BEIBL GWAU**

Diolch o galon i bawb, yn aelodau a ffrindiau, am eu holl gymorth gydag arddangosfa'r 'Beibl Gwau'. Cafwyd cydweithio arbennig wrth inni osod yr arddangosfa yn ei lle a chroesawu'r holl ymwelwyr a ddaeth draw. Diolch i aelodau Clwb Gwau Bethesda, 'O Res i Res', a fu'n gwau sgwariau ar gyfer y faner Gymraeg i hysbysebu'r arddangosfa, ac i Fecws Rachub am fod mor barod i ddarparu'r teisennau ar gyfer y te. Diolch yn fawr i bawb wnaeth helpu i weini'r te, dros gyfnod o dair wythnos. *[Diolch yn arbennig hefyd i Gwenda am ei gwaith diflino!- Gol.]*

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES












# Y Gymanfa Gydenwadol ym Methel Prestatyn











## Shiloh Newydd, Rhiwlas

**CROESO**

Croesawyd y Parchedig Ddr Jennie Hurd unwaith eto i Shiloh Newydd, Rhiwlas, ar fore Sul, 16 Mehefin. Mae'r aelodau bob amser yn edrych ymlaen at wasanaeth Jennie a chafwyd amser bendithiol iawn yn ei chwmni. Darllenwyd o'r bedwaredd bennod o'r Efengyl yn ôl Marc gan Osian Wyn Rowlands. Cawsom y fraint hefyd o groesawu'r Parchedig Ddr Janet Corlett, Cadeirydd Talaith Ynys Manaw, atom i'r gwasanaeth. Mae'r Parchedig Corlett ar hyn o bryd yn treulio amser gyda Jennie fel rhan o'i chyfnod sabothol, ac yn ymchwilio i "Addoliad yn y Cymunedau Ieithoedd Celtaidd eraill".

Mwynhaodd pawb baned a chacen gri wedi'r oedfa, a chyflwynodd y Parchedig Janet Corlett blât bychan ar gyfer dal bagiau te yn anrheg i'r capel. Mae hwn yn ddeniadol iawn, gyda phatrwm Celtaidd




lliwgar arno a 'llwncdestun Manawaidd' mewn Manaweg a Saesneg. Mae'n fodd i gofio am yr ymweliad, gan ein hatgoffa hefyd o'r cysylltiadau Celtaidd hynafol rhwng Cymru ac Ynys Manaw.

**DYMUNIADAU GORAU**

Anfonwn ein dymuniadau a chofion gorau at Mrs Dilys Parry, sydd ar hyn o bryd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd cyflwr ei hiechyd. Yr un yw ein dymuniadau da i Iona Jones sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty, ar ôl disgyn yn ei chartref. Mae colled fawr inni ar ôl ein dwy organyddes. Dymunwn adferiad iechyd buan iddynt.

**GOHEBYDD .** CAROL JONES

O'R LLAN
gan y Canon Idris Thomas

# Ur y Caldeaid

Mae ambell enw lle yn mynnu dod i'r meddwl ac un enw o'r fath i mi yw Ur y Caldeaid. Yn yr Ysgol Sul a gwasanaethau'r Sul yn Ninorwig gynt y'i clywais gyntaf. Daeth swyn yr enw yn ôl i mi pan ddarllenais yn ddiweddar am eglwys newydd sbon, anhygoel ei phensaerniaeth a godwyd gerllaw dinas hynafol Ur.

Yn Ur yr oedd Abram - Abraham yn ddiweddarach - yn byw gyda'i dad. Roedd yn ddinas fasnachol enwog iawn yn yr hen amser, a llawer o'r trigolion yn gyfoethog a diwylliedig. Cofir am Abraham fel "tad y genedl Hebreig". Hoffaf ddywediad bachog yr ysgolhaig Dafydd R. Ap Thomas -"Abraham, Isaac a Jacob, tad, mab ac ŵyr. Dyna'r tri chymeriad a ddefnyddiai'r Israeliaid fel tri pheg i hongian eu hanes cynnar arnynt". Mae Llyfr Genesis yn adrodd hanes Abraham yn gadael Ur gyda'i holl deulu a symud i Haran yng ngwlad Canaan, taith o saith can milltir. Nid oedd Abraham yn fodlon ar y bywyd a welai yn Ur y Caldeaid a chredai fod bywyd gwell mewn dinas arall yn bosibl. Yr hyn a'i blinai oedd gweld cynifer o bobl Ur yn troi eu cefn ar Dduw.

Adeiladwyd yr eglwys newydd gerllaw safleoedd archeolegol dinas hynafol Ur, a hynny mewn ymgais i ddwyn sylw at hanes hir y gymuned Gristnogol yno gan gynnwys cyfnodau dan warchae. Yn y flwyddyn 2021, wedi cyfnod o drais difrifol a llawer o bobl o leiafrifoedd crefyddol wedi ffoi oddi yno, fe ysbrydolwyd peiriannydd Catholig i ymgymryd â'r gwaith adeiladu. Roedd hyn ar ôl clywed y Pab Ffransis yn annerch arweinyddion ffydd yn Ur. Wrth offrymu gweddi, dywedodd y Pab: "Arwain ein dwylo yn y gwaith o ailadeiladu'r wlad hon". Cysegrwyd yr addoldy yn naturiol i Abraham (Ibrahim al-Khalil) sef tad yr holl gredinwyr. Daw pennill o emyn Nicander i'r cof:-

"Ti blennaist, Arglwydd, d'Eglwys
Mewn byd sy'n aflan odiaeth
Yn winllan dyner, werdd ac ir,
Yng nghanol crastir diffaith".

## MEWN UNIGRWYDD AC YNG NGHANOL TERFYSG

Yn ddiweddar fe'm cyffyrddwyd yn fawr pan ddarllenais am ddau unigolyn nad oeddwn yn eu hadnabod o gwbl. Gwraig gyffredin oedd un ohonynt sef Monica Ditmas ac offeiriad arbennig oedd y llall sef y Parchedig Colin Oxenforth. Treulio pnawn gwlyb yn mynd trwy ambell ffeil roeddwn i pan ddois ar draws toriadau o bapur newydd gyda hanes yr unigolion hyn. Yn 2017 roedd Monica Ditmas yn 93 oed. Hwyrach y bydd ei stori yn taro tant gyda rhai ohonoch chwi ddarllenwyr sydd yn yr union sefyllfa â hi. Y pennawd uwchben y stori oedd "Nid wyf yn dod â dim yn fy llaw." Mewn Cartref Gofal yr oedd Monica. Rhoes ganmoliaeth i bawb yno ond dywedodd, fel llawer un arall mewn sefyllfa debyg, fod yn rhaid iddi dreulio boreau Sul heb fod mewn addoliad gyda chynulleidfa. Y golled fwyaf un iddi oedd nad oedd modd iddi dderbyn y Cymun. Ond clywsai Monica am un dyn oedd wedi darganfod ffordd arbennig iawn i oresgyn hyn a phenderfynodd hithau ei efelychu. Roedd Gonville ffrench-Beytagh yn Ddeon mewn Eglwys Gadeiriol yn Johannesburg yn Ne Affrig yn nyddiau apartheid. Cafodd y Deon ei gadw ar ei ben ei hun mewn cell am sawl blwyddyn. Ar foreau Sul, yn unig yn ei gell, cynhaliai wasanaeth y Cymun. Meddai: "Cymerais ddim i'm dwylo a'i gyflwyno i'm Gwaredwr a dweud 'Dyma fy nghorff a roddir drosot'. Yna cymerais ddim i'm dwylo eto a dweud 'Dyma fy ngwaed a dywelltir drosot'. Gallaf ddweud fod y cyfan mor real a hyfryd ag unrhyw wasanaeth Cymun a brofais yn fy Eglwys Gadeiriol". Dywedodd Monica ei bod hithau'n dilyn esiampl y Deon bob bore Sul. Teimlai fod Duw ei hun yn derbyn hyn. Efallai, meddai, y gall stori'r Deon fod o gymorth i eraill yn ogystal.

## TOXTETH

Wrth grybwyll Toxteth yn ninas Lerpwl, fe gofiwn y terfysg yno yn 1981. Eleni bu farw'r Parchedig Colin Oxenforth a fu'n ficer yn Toxteth am dair blynedd ar ddeg. Bu'n dyst i'r terfysg difrifol yn 1981. Hyfforddwyd Colin ar gyfer yr offeiriadaeth yng Ngholeg St Chad yn Durham a bu'n gurad yn Bromley ac yna Nunhead yn Esgobaeth Southwark cyn dod i wasanaethu fel ficer yn Eglwys St. Margaret, Toxteth. Soniai fod ei gyfnod yn Toxteth yn un caled ond yn un hapus. Yn ystod y terfysg ymosodwyd ar ei ficerdy ond roedd Colin i ffwrdd ar y pryd. Cafodd y tŷ ei amddiffyn gan ei gyd-drigolion a wyddai'n iawn am ei gonsýrn dros ei gymdogaeth leol. Cafodd y banc ger y ficerdy ei losgi i'r llawr. Deuai llawer oedd ar gwr y gymdeithas i eglwys Colin ac roedd ei gynulleidfa yn gymysgfa o bobl, pawb yn cael ei dderbyn yn union fel yr oedd. Geiriau un o'i blwyfolion am yr offeiriad arbennig hwn oedd "rhoes gipolwg i ni o deyrnas nef". Doedd dim angen dweud mwy. Diolch am Monica a Colin.



# O'R PEN YMA

***gan Angharad Tomos***



Deiseb Heddwch y Merched sydd wedi mynd â'm bryd y tro hwn. Ym 1923, roedd merched Cymru yn teimlo ar dân y dylent wneud rhywbeth - unrhyw beth - i atal lladdfa debyg i'r Rhyfel Mawr rhag digwydd eto. Roedd cynifer ohonynt wedi colli perthynas yn y rhyfel erchyll honno.

Roedd Cynghrair y Cenhedloedd wedi ei sefydlu ym 1918, a dwy flynedd yn ddiweddarach sefydlwyd yr adain Gymreig. Bu David Davies Llandinam yn hael ei gefnogaeth ac un peth pwysig wnaed ganddo oedd noddi sefydlu Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd Gwilym Davies y syniad o Neges Heddwch gan Ieuenctid Cymru, ac erbyn 1922 roedd mudiad heddwch y menywod yn brysur. Un mater oedd yn siom i lawer oedd nad oedd yr Unol Daleithiau wedi ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Erbyn 1923, roedd y merched wedi cael syniad uchelgeisiol – beth am gael deiseb gan ferched Cymru i ferched yr Unol Daleithiau yn gofyn iddynt bwyso ar eu llywodraeth i ymuno â Chyngres y Cenhedloedd? A dyna wnaed.

Mewn saith mis, roeddent wedi casglu 400,000 o enwau. Casglwyd yr enwau ynghyd, eu rhoi mewn cist, a hwyliodd i'r America gyda 4 gwraig o Gymru. Cyflwynwyd yr enwau i Arlywydd yr Unol Daleithiau. Wn i ddim amdanoch chi, ond dwi'n credu fod hynny ynddo'i hun yn destun rhyfeddod. Am ganrif, bu'r enwau yn y gist yn Sefydliad y Smithsonian yn Washington, nes i ambell un yng Nghymru benderfynu y carent wybod mwy amdani. Y llynedd, daeth y gist a'r enwau yn ôl i Gymru, ac mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn y broses o'i digideiddio. O fynd ar safle y Llyfrgell, gallwch ganfod os yw eich nain chi ymysg y rhai dorrodd eu henwau ar y ddogfen hanesyddol hon.

Gallai pethau fod wedi bod yn wahanol. Gallai merched Cymru fod wedi ymgolli yn eu gofid, a bod yn rhy ddiymadferth i wneud dim. Gallent fod wedi holi pa ddiben mewn gwneud unrhyw beth. O glywed am syniad y ddeiseb, gallent fod wedi dweud ei fod yn rhy uchelgeisiol, nad oedd pwynt. Ond ddaru nhw ddim. Dyma nhw'n meiddio gobeithio, yn meiddio mynd amdani, a chafwyd cefnogaeth gan lu o sefydliadau, gan gynnwys capeli ledled Cymru.

Ambell waith, yn yr oes sinigaidd hon, dwi'n teimlo fod gobaith wedi mynd yn rhywbeth hen-ffasiwn iawn. Ond does dim rhaid i ni gredu hynny. Weithiau, gall gobaith ddod o sector annisgwyl iawn – fel merched 1923. Wyddoch chi byth beth yw pen draw eich ymdrechion. Mae enwau merched 1923 yn ein hysbrydoli. Maent hefyd yn ein herio – beth allwn ni ei wneud yn 2024 i hybu heddwch byd-eang?

# Sail newid go iawn

gan **Glyn Tomos**

Un slogan sydd wedi ei glywed a'i weld yn fwy nag unrhyw un arall yn ddiweddar yw ei bod 'yn amser am newid'. Amser a ddengys sut fath o 'newid' fydd hwnnw a pha bryd y daw y newid y gobeithir amdano. Gobaith pawb yw y bydd y newid yn gwneud gwahaniaeth er gwell yn ein bywydau.

Nid tasg hawdd o gwbl yw cyflwyno unrhyw newid. Mae'r her o geisio gwneud hynny yn gofyn am gryn ddewrder, ymroddiad a dyfalbarhad a hynny yn gallu bod yn wyneb gwrthwynebiad ffyrnig a didrugaredd. Er mwyn i unrhyw newid fod yn llwyddiannus mae'n rhaid dwyn pobl gyda chi a sicrhau cydberchnogaeth o'r newid sydd yn digwydd.

A sôn am newid, ydych chi'n cofio lle'r oeddech chi 34 mlynedd yn ôl, ar ddydd Sul, Chwefror 11, 1990? Mi ddweda i wrthych lle'r oeddwn i. Fel miloedd eraill ar draws y byd, roeddwn yn canolbwyntio yn llwyr ar weld hanes yn digwydd o flaen fy llygaid ar y teledu.

Beth oedd y digwyddiad hanesyddol yma? Yr ymgyrchwr mwyaf pybyr yn erbyn apartheid yn Ne Affrig sef Nelson Mandela yn cael ei draed yn rhydd o garchar am y tro cyntaf ar ôl 27 o flynyddoedd. Mi welaf o rŵan yn cyd-gerdded gyda'i wraig, Winnie Mandela a'r byd yn ei weld am y tro cyntaf ers ei garchariad hir. Roedd Mandela wedi mynnu bod ei ryddhad o'r carchar yn cael ei ddangos i'r byd. Diwrnod cofiadwy iawn.

Cafodd ei ryddhau o'r carchar yn sgil llacio cyfreithiau apartheid – yn cynnwys codi gwaharddiad ar blaid hawliau pobl ddu – yr African National Congress (ANC) gan Lywydd De Affrig, FW de Klerk. Dyna lle'r oedd Nelson Mandela yn ymddangos wrth gatiau Carchar Victor-Verster yn Paarl. Gafaelai yn llaw ei wraig gan wenu ar y dorf fawr a chynhyrfus a chodi ei fraich i'r awyr fel arwydd o fuddugoliaeth cyn cael ei gludo i Cape Town, 40 milltir i ffwrdd.



Llun: South Africa The Good News / www.sagoodnews.co.za

Pedair blynedd yn ddiweddarach yn 1994, gwelwyd newid mawr arall yn y wlad; fe gafodd pobl wyn a du y cyfle i bleidleisio gyda'i gilydd mewn etholiad yn Ne Affrig. Roedd y bleidlais yn penderfynu pwy oedd yn mynd i lywodraethu'r wlad. Fe enillodd yr ANC ac fel y gwyddom, daeth Nelson Mandela yn Llywydd ar Dde Affrig. Roedd hyn yn ddiwrnod arwyddocaol ar draws y byd ac mae dyddiad yr etholiad yn cael ei ddathlu fel 'Diwrnod Rhyddid' yn y wlad.

Felly eleni mae hi yn 30 mlynedd ers y llwyddodd pobl De Affrig i oresgyn anawsterau lu i sicrhau trosglwyddiad heddychlon o apartheid i ddemocratiaeth. Roedd hyn yn ddigwyddiad hanesyddol iawn o gofio creulondeb system goruchafiaeth y gwyn dros bobl ddu a greithiodd y wlad am bron i hanner canrif. Mae hyn yn dangos sut mae maddeuant, gobaith a dynoliaeth yn gallu trechu ofn, casineb ac arswyd.

Bellach mae'r awyrgylch yn Ne Affrig yn un o ansicrwydd mawr oherwydd problemau dyfnion iawn. Mae hyn yn groes i'r optimistiaeth a welwyd yn 1994 wrth i Mandela ddod yn Llywydd ar y wlad. Er bod yr ANC wedi ennill pob etholiad ers 1994



mae nifer o bobl De Affrig yn dweud bod arweinyddion y Blaid wedi edrych ar ôl eu hunain a ddim wedi bod yn cynorthwyo pobl dlawd. Hefyd mae rhai o'r gwleidyddion wedi cael eu cyhuddo o ddefnyddio arian cyhoeddus yn anghyfrifol.

Er mai'r ANC sy'n parhau fel y blaid fwyaf gyda 40 y cant o'r bleidlais mae'r blaid wedi gweld eu cefnogaeth yn gostwng yn sylweddol yn ddiweddar a hynny mewn gwlad sydd wedi ei phoeni gan lygredd, troseddau, anghyfartaledd dirfawr, a sefyllfa economaidd ansefydlog.

Ond yn hytrach nag ymladd ac anwybyddu canlyniad yr etholiad mae arweinyddion ANC wedi dangos urddas a pharch gan ddychwelyd at seiliau democratiaeth a sefydlwyd gan Mandela ac eraill. Mae arweinwyr y blaid wedi dangos eu bod yn barod i dderbyn ewyllys y bobl a symud ymlaen i ffurfio clymblaid gan fod pobl y wlad wedi dweud bod yn rhaid iddynt weithio gydag eraill. Mae hyn, yn eu tyb hwy, yn dangos bod pleidlais y bobl yn cadarnhau pa mor gryf yw democratiaeth y wlad.

Does dim amheuaeth bod De Affrig yn colli Mandela. Maent yn colli ei arweinyddiaeth graff a phendant, ei werthoedd diwyro a'i ofal aruthrol a'i gariad dwfn at bobl y wlad. Eto fel y gwelwn mae ei weledigaeth ef a'r hyn mae wedi ei blannu yng nghalon ei bobl yn dangos mai trwy wrando ar lais y bobl a gweithredu er eu lles gyda'i gilydd yw'r ffordd i oresgyn yr heriau mwyaf sydd yn dal ac a fydd gyda hwy am flynyddoedd eto.

Dyma sail newid go iawn.

# 'Y RHAGLEN FWYAF LLAWEN AR Y TELEDU'

*gan Gareth Blainey*

Dyna sut rydw i wedi cyfieithu "the most joyful show on television". Dyna ddisgrifiad cylchgrawn y *Radio Times* o "The Piano" cyn i ail gyfres y rhaglen gael ei darlledu ar Sianel 4 ychydig fisoedd yn ôl. Cafodd ail gyfres o saith rhaglen ei chomisiynu oherwydd bod y gyfres gyntaf o chwe rhaglen a ddarlledwyd y llynedd mor boblogaidd.

Yn ystod y rhaglenni, sy'n cael eu cyflwyno gan Claudia Winkleman, mae pianyddion amatur talentog yn cael cyfle i berfformio darn o'u dewis nhw yn gyhoeddus ar biano sydd wedi'i osod mewn ymgynullfan ("concourse") mewn gorsaf reilffordd yn un o ddinasoedd Prydain. Mae nifer o'r pianyddion yn cyfeilio iddyn nhw'u hunain ac roedd hi'n hyfryd clywed y Gymraeg yn ail raglen yr ail gyfres a gafodd ei ffilmio yng ngorsaf Caerdydd Canolog. Canodd Nerys, sy'n athrawes biano o Gaerffili, a chôr meibion gân Robat Arwyn a Hywel Gwynfryn 'Anfonaf Angel'.


Gwnaeth y perfformiad argraff fawr ar y ddau feirniad yn ystod y rhaglenni – y pianydd byd-enwog Lang Lang a'r canwr pop Mika – ond wnaeth y ddau ddim dewis Nerys ar gyfer y rownd derfynol. Cyngerdd oedd y rownd derfynol a bu raid i Lang Lang a Mika benderfynu p'un o'r saith pianydd berfformiodd orau ar lwyfan ym Manceinion. Gwnaethon nhw ddewis Brad Kella, dwy ar hugain oed o Fazakerley yn ymyl Lerpwl, ar ôl iddo chwarae "Eve and Frank" sef darn a gyfansoddodd i ddiolch i'r ddau sydd wedi bod yn rhieni maeth iddo ers ei fod o'n saith oed. Cododd nifer fawr o aelodau'r gynulleidfa ar eu traed i gymeradwyo Brad ar ddiwedd perfformiad gwych ganddo.

Dyna ddigwyddodd hefyd ar ôl perfformiad penigamp gan ferch dair ar ddeg oed, Lucy Illingworth o dref Brighouse yn Sir Efrog, yn rownd derfynol cyfres gyntaf "The Piano" yn y Royal Festival Hall yn Llundain ym mis Mawrth y llynedd. Mae Lucy'n ddall ac yn awtistig. Mae hi'n athrylith ym marn Lang Lang ar ôl iddo fo ei gwylio hi a gwrando arni'n chwarae "Nocturne" anodd iawn gan Chopin yng ngorsaf reilffordd Leeds. Disgleiriodd Lucy unwaith eto wrth berfformio "Arabesque" rhif 1 Debussy yn y rownd derfynol a doedd hi ddim syndod mai y hi enillodd. Doedd hi ddim syndod chwaith ar ôl ei buddugoliaeth fod Sianel 4 wedi comisiynu rhaglen ddogfen amdani : "The Incredibly Talented Lucy".





# Ar gyfer y plant



## Dafydd a Goliath

(1 Samuel 17:12-50)

Bugail oedd Dafydd, yn edrych ar ôl defaid ei dad Jesse. Roedd brodyr hŷn Dafydd ym myddin Israel. Roedden nhw'n ymladd yn erbyn y Philistiaid. Un diwrnod cafodd Dafydd ei anfon gan ei dad i fynd â bwyd i'w frodyr yn y fyddin. Tra oedd yn siarad â'i frodyr, daeth dyn anferth a bygythiol yr olwg allan o rengoedd y Philistiaid. Rhyfelwr brawychus oedd hwn, o'r enw Goliath. Roedd ar bawb ei ofn.

"Mi wnaf i ymladd yn ei erbyn," meddai Dafydd.

"Ti?" meddai Saul, brenin Israel. Bachgen yn erbyn cawr o ddyn!

Ond yna rhoddodd y brenin ei arfwisg ei hun i Dafydd. Roedd mor drwm fel na fedrai Dafydd gerdded ynddi a dyma fo'n ei thynnu a mynd fel yr oedd. Cymerodd bum carreg lefn a ffon dafl – dyna roedd o wedi'i ddefnyddio i amddiffyn y defaid rhag anifeiliaid gwyllt. Roedd Dafydd wedi lladd llewod ac eirth er mwyn amddiffyn y defaid. Doedd arno ddim ofn oherwydd roedd yn credu y byddai Duw'n edrych ar ei ôl.

Chwarddodd Goliath pan welodd Dafydd, oherwydd ei fod mor fach ac ifanc, ond hyrddiodd Dafydd garreg a tharo Goliath ar ei dalcen a'i ladd. Yna cymerodd Dafydd gleddyf Goliath a thorri ei ben. Rhedodd y Philistiaid i gyd i ffwrdd, a chafodd Dafydd ei gymeradwyo fel arwr.

Bendithiodd Duw Dafydd ac yn ddiweddarach daeth Dafydd yn frenin mawr ar Israel, a phawb yn ei garu.





## CROESAIR




**AR DRAWS**

1 Chwaer Dad neu Mam
4 Tri tri
5 Jesse oedd ... Dafydd
6 Rhyfelwr brawychus

**I LAWR**

1 Siarp
2 Bydd yn dod
3 Gras ein Harglwydd Iesu Grist
5 Mwy na dau ond llai na pedwar




3

